Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# AMODAU CONTRACT SAFONOL AR GYFER DARPARU GWASANAETHAU AROLYGU O DAN ATODLEN 26 DEDDF SAFONAU A FFRAMWAITH YSGOLION 1998 FEL Y'I DIWYGIWYD GAN DDEDDF ADDYSG 2005

**FEL:**

**AROLYGYDD COFRESTREDIG MEITHRIN ESTYN**

**YN RÔL: AROLYGYDD TÎM**

**MEWN AROLYGIADAU AR Y CYD RHWNG ESTYN AC AGC O LEOLIADAU NAS CYNHELIR YNG NGHYMRU**

**Fersiwn 1.4** **Medi 2024**

Estyn, Llys Angor/Anchor Court, Heol Keen/Keen Road, Caerdydd/Cardiff, CF24 5JW
Ffôn/Telephone 02920 446446
ymholiadau@estyn.llyw.cymru • enquiries@estyn.gov.wales
www.estyn.llyw.cymru • www.estyn.gov.wales

**Rheoli fersiwn**

| **Fersiwn y ddogfen** | **Awdur** | **Dyddiad cyhoeddi** | **Newidiadau a waned** |
|---|---|---|---|
| 1.0 | Alison Palmer | Tachwedd 2018 | Argraffiad cyntaf |
| 1.1 | Alison Palmer | Awst 2019 | Diweddarwyd Amodau 13.3:<br>- Ffurflen Farnau wedi'i Choladu, ffurflen barnau adrodd ac adroddiadau – cefnogir eglurder ar borwyr rhyngrwyd i fodloni gofynion coladu. |
| 1.2 | Alison Palmer | Hydref 2021 | Amodau 7<br>Gweithgareddau eraill y contractwr;<br>Amodau 26<br>Terfynu oherwydd digwyddiad coronafeirws. |
| 1.3 | Alison Palmer | Gorffenaf 2022 | Amodau 14 – diweddariad i deitl dogfennau YAR |
| 1.4 | Alison Palmer | Medi 2024 | Diweddariad amod 14.3. |

**AMODAU CONTRACT SAFONOL AR GYFER DARPARU GWASANAETHAU AROLYGU O DAN ATODLEN 26 DEDDF SAFONAU A FFRAMWAITH YSGOLION 1998 FEL Y'I DIWYGIWYD GAN DDEDDF ADDYSG 2005**

Gellir amrywio'r Amodau hyn gyda chytundeb ysgrifenedig Estyn yn unig. Ni fydd unrhyw delerau neu amodau a gynigir ar unrhyw adeg gan y Contractwr yn ffurfio unrhyw ran o'r Contract.

Os bydd unrhyw wrthdaro rhwng fersiynau Cymraeg a Saesneg y Contract hwn, y fersiwn Saesneg fydd yn cael blaenoriaeth.

TABL CYNNWYS


| Rhif | Adran | Tudalen |
|---|---|---|
| 1 | Amodau | 1 |
| 2 | Diffiniadau | 1 |
| 3 | Cyfnod y Contract | 4 |
| 4 | Gwybodaeth Gyfrinachol | 5 |
| 5 | Amrywio'r Gwasanaethau | 5 |
| 6 | Natur y Gwasanaethau | 6 |
| 7 | Gweithgareddau eraill Contractwr | 7 |
| 8 | Gwrthdaro Buddiannau | 7 |
| 9 | Gwahaniaethu | 8 |
| 10 | Statws y Contractwr | 9 |
| 11 | Diogeledd ac Iechyd a Diogelwch | 9 |
| 12 | Trosglwyddo ac Is-Osod | 10 |
| 13 | Sicrhau Ansawdd | 10 |
| 14 | Adroddiadau a ffurflen fewnbwn adrodd | 11 |
| 15 | Cwynion | 12 |
| 16 | Taliad | 13 |
| 17 | Treth ar Werth | 14 |
| 18 | Contractwr amgen | 14 |
| 19 | Rhoddion Llwgr neu Daliadau Comisiwn | 14 |
| 20 | Cyflafareddu | 15 |
| 21 | Perchenogaeth Gwybodaeth | 16 |
| 22 | Indemniad ac Yswiriant | 18 |
| 23 | Damwain neu Anaf i'r Contractwr | 18 |
| 24 | Rhwymedigaethau Statudol | 19 |
| 25 | Tynnu oddi ar y Rhestr Ymrestredig | 19 |
| 26 | Terfynu | 20 |
| 27 | Adennill Symiau sy'n Ddyledus | 21 |
| 28 | Rhwymedïau | 22 |
| 29 | Hysbysiadau | 22 |
| 30 | Polisi dim Ysmygu | 23 |
| 31 | Toradwyedd | 23 |
| 32 | Gorfodaeth gan drydydd parti | 23 |
| 33 | Cydweithrediad a chymorth | 23 |
| 34 | Cyfraith a Rheoliadau | 23 |

## 1. AMODAU

1.1 Mae gofyniad llawn Estyn ar gyfer y contract i arolygu lleoliadau sefydliadau nas cynhelir wedi'i gynnwys yn y dogfennau a restrir isod:

(a) Manyleb yn y Gwahoddiad i Dendro

(b) yr Amodau Contract;

(c) y Fframwaith Arolygu Cyffredin a'r llawlyfr arweiniad perthnasol

(ch) y llawlyfr arweiniad ar gyfer arolygu gofal ac addysg mewn lleoliadau rheoleiddiedig nad ydynt yn ysgolion ar gyfer addysg ran-amser (Arolygiadau ar y cyd rhwng Estyn ac AGC)

(d) pecyn cymorth i arolygwyr ar gyfer arolygiadau ar y cyd rhwng Estyn ac AGC

(dd) arweiniad atodol, polisïau arolygu a pholisïau a chyhoeddiadau perthnasol eraill gan Estyn, y gellir eu diwygio o dro i dro; a

(e) Polisi Iaith Gymraeg a'r arweiniad ar ddarparu Gwasanaethau Cymraeg.

## 2. DIFFINIADAU

2.1 Yn y Contract hwn, bydd gan yr ymadroddion canlynol yr ystyron a ganlyn:

| | |
|---|---|
| "Adroddiad" | yw'r ddogfen ar ei ffurf derfynol fel a ddisgrifir yn y Ddeddf, Amod 14 yr Amodau Contract hyn ac a ddisgrifir yn y Llawlyfr Arweiniad. |
| "Addysg Feithrin" | yw addysg ran-amser a ddarperir i blant nad ydynt wedi cyrraedd oed ysgol gorfodol mewn lleoliadau nas cynhelir. |
| "AEM" | yw Arolygwyr Ei Mawrhydi Dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. |
| "ALl" | yw awdurdod lleol. |
| "Amod" | yw unrhyw gymal neu baragraff y cyfeirir atynt yn y Contract hwn. |
| "Amodau Contract" | yw'r telerau a'r amodau a nodir yn y Contract hwn neu fel y'u diwygir yn ysgrifenedig o dro i dro. |
| "Arolygiad" | yw'r arolygiad o Sefydliad fel sy'n ofynnol gan y Fframwaith Arolygu Cyffredin, i'w gynnal gan Estyn, sydd hefyd yn ymgorffori'r holl weithgareddau craidd a chysylltiedig hynny cyn, yn ystod ac ar ôl ymweld â'r Sefydliad ei hun. |
| "Arolygiad Meithrin PDBL" | yw'r Arolygiad a gaiff ei ystyried gan yr ALl wrth lunio cynigion o dan adran 120 y Ddeddf. |
| Arolygydd Cofnodol | yw'r AEM, Arolygydd AGC neu'r Arolygydd Ychwanegol dan Gontract sy'n arwain yr arolygiad hwn. |

| | |
|---|---|
| “Arweiniad” | yw unrhyw arweiniad cysylltiedig y gellir ei gyhoeddi o dro i dro. |
| “Contract” | yw’r Contract rhwng Estyn a’r Contractwr sy’n cynnwys yr Amodau Contract hyn, gan gynnwys yr holl ddogfennau a restrir yn Amod 1.1, llythyr dyfarnu’r contract ac unrhyw ddogfennau eraill y cyfeirir atynt yn y Dystysgrif Dendro a gynhwysir gyda’r Gwahoddiad i Dendro. |
| “Contractwr” | yw’r Arolygydd Ychwanegol dan Gontract y dyfernir y Contract iddo. |
| “Cwyn” | yw unrhyw feirniadaeth neu sylw(adau) croes a godir gan y Sefydliad neu bartneriaeth neu awdurdod perthnasol mewn perthynas â’r Arolygiad a/neu’r Arolygydd naill ai cyn, yn ystod neu ar ôl yr Arolygiad. |
| “Data” | yw’r data a ddisgrifir yn y diffiniad o Ddata Personol yn y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) sy’n cael eu brosesu yn yr ystyr o brosesu fel y ‘i diffinnir yn ystod cyfnod darparu’r Gwasanaethau. |
| “Data Personol” | yw data personol fel a ddiffinnir yn y GDPR a gyflwynir i’r Contractwr gan Estyn neu a geir gan y Contractwr yn ystod cyfnod darparu’r Gwasanaethau. |
| “Datgeliad Manwl” | yw proses ar gyfer cynnal lefel ragnodedig o wiriadau ar hanes blaenorol unigolyn gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) er mwyn cynorthwyo Estyn i nodi’r cyfryw unigolion y gellir ystyried, oherwydd eu hanes blaenorol, yn anaddas i’w cyflogi ar gyfer darparu’r Gwasanaethau. |
| “Deddf” | yw Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 fel y’i diwygiwyd gan Ddeddf Addysg 2005. |
| “Deddf Cyflafareddu” | yw Deddf Cyflafareddu 1996. |
| “Deddf Rhyddid Gwybodaeth” | yw Deddf Rhyddid Gwybodaeth, 2000. |
| “Deddfwriaeth” | yw unrhyw Ddeddf Seneddol neu is-ddeddfwriaeth y Deyrnas Unedig neu Ewrop o fewn ystyr adran 21(1) Deddf Ddehongli 1978 neu offeryn statudol. |
| “Dogfen” | yw unrhyw lythyr, ffurflen, adroddiad, set data neu gasgliad arall o wybodaeth ysgrifenedig neu ddarluniol mewn unrhyw gyfrwng a ddefnyddir mewn cysylltiad â’r Contract hwn. |
| “Dogfennau Arolygiad” | yw unrhyw ddogfen, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i’r Dogfennau, y FfF Mewnbwn, y FfB wedi’u coladu a’r FfF Adrodd a’r fersiynau drafft o’r Adroddiad a grëwyd, a gynhyrchwyd neu a gafwyd mewn cysylltiad â’r Arolygiad o dan y Contract hwn, p’un ai a gafodd ei chyflwyno i Estyn neu beidio. |
| “Diwrnod Gwaith” | yw unrhyw ddiwrnod heblaw am ddydd Sadwrn, dydd Sul neu Ŵyl Banc. |
| “Dyddiad Cwblhau’r Contract” | yw’r dyddiad y mae’r Gwasanaethau i’w cwblhau i foddhad Estyn neu ddyddiad terfynu’r contract, os yw’n gynharach. |
| “Dyddiad yr Arolygiad” | yw’r dyddiad y bydd y Contractwr yn mynd i’r Sefydliad at ddibenion arolygu’r addysg a ddarperir yno fel y dywedir yn y |

| | |
|---|---|
| | contract. |
| “Estyn” | yw Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. |
| “Fframwaith Arolygu Cyffredin” | yw’r fersiwn o’r ddogfen â’r enw “Y Fframwaith Arolygu Cyffredin ar gyfer Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru” sy’n ddogfen gyfredol ar ddyddiad yr Arolygiad yn ymwneud â darparu’r Gwasanaethau ac sydd i’w cael ar y Wefan. |
| “Ffurflen Fewnbwn” | yw’r ddogfen electronig a lenwir gan y Tîm Arolygu yn ystod yr Arolygiad, yn nodi canfyddiadau’r Arolygiad, ac a gesglir gan yr Arolygydd Cofnodol a ddynodwyd. |
| “GDPR” | yw’r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data a ddaeth i rym ar 25 Mai 2018. |
| “Gwahoddiad i Dendro” | Gweler yr ystyr yn Amod 1.1(a) uchod. |
| “Gwasanaethau” | yw’r Arolygiad a chynhyrchu’r Adroddiad y cyfeirir ato yn Atodlen 26 y Ddeddf ac a ddynodir yn y Contract a, lle mae’r cyd-destun yn caniatáu hynny, mae’n cynnwys unrhyw erthyglau sydd i’w cyflwyno drwy hynny. |
| “Gwefan” | gwefan Estyn, yn www.estyn.llyw.cymru. |
| “Gweithdrefn Gŵynion” | yw’r fersiwn ddiweddaraf o ddogfen Estyn o’r enw “Gweithdrefn ar gyfer delio â Chwynion” a gyhoeddir ar y Wefan o dro i dro. |
| “Manyleb” | yw’r fanyleb ar gyfer y Gwasanaethau a amlinellir yn y Gwahoddiad i Dendro fel y’i diwygir yn ysgrifenedig gan Estyn o dro i dro, os bydd yn ofynnol. |
| “PAEM” | yw Prif Arolygydd Ei Mawrhydi Dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. |
| “Parti” | yw naill ai Estyn neu’r Contractwr, a bydd “Partïon” yn cael eu dehongli’n unol â hynny. |
| “Polisi Sicrhau Gwybodaeth” | yw’r ddogfen â’r teitl hwnnw sydd ar gael ar wefan Estyn. |
| “Polisi Iaith Gymraeg” | Yw’r fersiwn o’r ddogfen â’r teitl hwnnw adeg yr arolygiad y gellir weld ar wefan Estyn |
| “Pris y Contract” | yw’r pris (sy’n gynnwys TAW lle y bo’n berthnasol) sy’n daladwy i’r Contractwr gan Estyn o dan y Contract i’r Contractwr gyflawni ei ran ef o’r Contract yn llawn ac yn gywir, yn unol â’r Gwahoddiad i Dendro. |
| “Prosesydd Data” | gweler y diffiniad yn GDPR. |
| “Rheoliadau” | yw’r Rheoliadau Addysg a wnaed gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan Atodlen 26 y Ddeddf. |
| “Rheolwyr” | yw person cofrestredig/unigolyn cyfrifol, pwyllgor rheoli, perchennog, elusen neu gymdeithas arall sy’n gyfrifol am y Sefydliad. |
| “Rheolydd Data” | gweler y diffiniad yn GDPR. |
| “Rhestr Ymrestredig” | Mae PAEM yn cadw rhestr o unigolion cofrestredig a all weithredu fel aelod o’r tîm arolygu. |

| | |
|---|---|
| “Sefydliad” | yw’r sefydliad addysg a fydd yn cael ei arolygu fel a bennir yn yr Ystafell Arolygu Rithwir. |
| “Tendr” | yw dogfennau’r tendr a gaiff Estyn gan y Contractwr mewn perthynas â darparu’r Gwasanaethau. |
| “Tymor yr Arolygiad” | yw’r tymor academaidd pan gynhelir yr arolygiad. |
| “Tystysgrif Anghydgynllwynio” | yw’r ddogfen â’r teitl hwnnw sy’n rhan o’r Gwahoddiad i Dendro. |
| “Tystysgrif Dendro” | yw’r ddogfen â’r teitl hwnnw sy’n rhan o’r Gwahoddiad i Dendro. |
| “Y Cod Gwybodaeth” | gweler yr ystyr yn 20.10 isod. |
| “YAR” | yw’r Ystafell Arolygu Rithwir, sef gwefan Estyn ar gyfer rheoli arolygiadau. Mae’r ardal hon yn galluogi Sefydliad, Contractiwr, y Tîm Arolygu ac Estyn weld gwybodaeth yn ymwneud â’r Arolygiad. |
| “Ymateb Masnachol” | yw’r ddogfen â’r teitl hwnnw sy’n rhan o’r Gwahoddiad i Dendro. |

2.2 Dehonglir geiriau sy’n datgan un rhyw fel geiriau sy’n datgan y rhywedd arall, a bydd cyfeiriadau at bersonau yn cynnwys cwmnïau.

2.3 Mae’r unigol yn cynnwys y lluosog, ac fel arall.

2.4 Ni fydd y penawdau i’r Amodau hyn yn effeithio ar eu dehongliad.

2.5 Mae unrhyw gyfeiriad at bersonau yn cynnwys personau naturiol, ffyrmiau, partneriaethau, cwmnïau, corfforaethau, cymdeithasau, cyfundrefnau, llywodraethau, gwladwriaethau, sefydliadau ac ymddiriedolaethau (ym mhob achos pa un a oes iddynt bersonoliaeth gyfreithiol ar wahân neu beidio).

2.6 Dehonglir unrhyw gyfeiriad at Ddeddf Seneddol neu is-ddeddfwriaeth fel datgan cyfeiriad iddo fel ailddeddfiad, addasiad neu ymestyniad iddo am yr amser y mae mewn grym ac i bob offeryn, rheoliad, is-ddeddf a chynllun statudol a wneir neu a gyhoeddir drwy hynny neu’n deillio dilysrwydd ohono.

2.7 Yn achos unrhyw wrthdaro rhwng unrhyw ddarpariaeth yn yr Amodau hyn, y Gwahoddiad i Dendro neu’r Tendr y drefn flaenoriaeth fydd (i) yr Amodau hyn; (ii) y Gwahoddiad i Dendro; (iii) y Tendr.

## 3. <u>CYFNOD Y CONTRACT</u>

3.1 Bydd y Contractwr yn dechrau darparu’r Gwasanaethau a ddiffinnir yn y Fanyleb ar ddyddiad derbyn y Tendr gan Estyn a bydd yn gorffen pan fydd Estyn yn talu’n llawn am y Gwasanaethau, yn amodol ar Amod 26 (Terfynu).

3.2 Dyddiad Cychwyn yr Arolygiad fydd yr un y caiff ei hysbysu’n ysgrifenedig gan Gydlynydd Arolygu Estyn. Bydd y Cydlynydd Arolygu yn hysbysu’r Sefydliad am ei

arolygiad 10 (deg) Diwrnod Gwaith yn union cyn Dyddiad Cychwyn penodedig yr Arolygiad.

3.3 Ni fydd cwblhau'r Contract (Dyddiad Cwblhau'r Contract yn unol ag Amod 3.1) yn gwneud iawn am unrhyw rwymedigaethau neu hawliau a gynhwysir mewn unrhyw Amod yn y Contract sy'n gallu parhau ar ôl cwblhau, a fydd yn parhau mewn grym llawn ac ag effaith lawn.

## 4 GWYBODAETH GYFRINACHOL

4.1 Heb ragfarnu cyffredinolrwydd darpariaethau amodau 6.5 9(ch) a (d), ac amod 21, mae'r Contractwr yn cydnabod y ffaith bod y Sefydliad yn cael ei arolygu a bod Dyddiad Cychwyn yr Arolygiad (ynghyd â'r "Gwybodaeth Gyfrinachol") yn gyfrinachol hyd nes bod y Cydlynydd Arolygu yn hysbysu'r Sefydliad ddeg (10) Diwrnod Gwaith cyn Dyddiad Cychwyn yr Arolygiad (y "Dyddiad Datgelu Awdurdodedig") bod y Sefydliad yn cael ei arolygu a Dyddiad Cychwyn yr Arolygiad.

4.2 Cyn y Dyddiad Datgelu Awdurdodedig, bydd y Contractwr yn cadw Gwybodaeth Gyfrinachol yn gyfrinachol ac yn benodol ni fydd yn datgelu'r Wybodaeth Gyfrinachol yn gyfan gwbl nac yn rhannol i unrhyw berson heblaw yn gyfrinachol ac ar sail bod angen gwybod neu unrhyw bersonau a ganiateir yn unol â darpariaethau amod 4.3 ("Personau Awdurdodedig").

4.3 Bydd y Contractwr yn mynnu bod y cyfryw Bersonau Awdurdodedig yn cadw'r Wybodaeth Gyfrinachol yn gyfrinachol ac ni fydd yn datgelu'r Wybodaeth Gyfrinachol yn rhannol nac yn gyfan gwbl i unrhyw berson heblaw am Berson Awdurdodedig arall cyn y Dyddiad Datgelu Awdurdodedig.

4.4 Bydd y Contractwr yn atebol am unrhyw ddatgeliad o'r Wybodaeth Gyfrinachol yn rhannol neu yn gyfan gwbl gan unrhyw Berson Awdurdodedig cyn y Dyddiad Datgelu Awdurdodedig i unrhyw berson heblaw am Berson Awdurdodedig arall fel petai'r cyfryw ddatgeliad yn ddatgeliad gan y Contractwr.

## 5. AMRYWIO'R GWASANAETHAU

5.1 Mae Estyn yn cadw'r hawl trwy hysbysu'r Contractwr yn ysgrifenedig i newid gofynion y Gwasanaethau. Bydd unrhyw amrywiad i Bris y Contract neu Ddyddiad Cwblhau'r Contract yn sgil y cyfryw addasiad yn cael ei gytuno rhwng y Partïon. Os na cheir cytundeb, caiff y mater ei ddatrys trwy gyflafareddu yn unol ag Amod 21 isod.

## 6. NATUR Y GWASANAETHAU

6.1 Mae Estyn yn penodi'r Contractwr i ddarparu'r Gwasanaethau:

6.1.1 yn brydlon ac mewn modd proffesiynol a chwrtais er mwyn adlewyrchu a hyrwyddo delwedd Estyn;

6.1.2 yn gwbl unol â darpariaethau'r Contract; ac

6.1.3 yn unol â phob Deddfwriaeth berthnasol, Llawlyfr Arweiniad ac Arweiniad cyffredinol.

6.2 Mae'r Contractwr yn cadarnhau ei fod wedi deall natur a graddau'r Gwasanaethau sydd i'w cynnal ac wedi'i fodloni ei hun mewn perthynas â'r holl faterion sy'n gysylltiedig â'r Gwasanaethau a'r Sefydliad.

6.3 Mae'r Contractwr yn cadarnhau ei fod wedi'i fodloni ei hun cyn tendro ynglŷn â chywirdeb a digonolrwydd Pris y Contract a fydd yn talu am ei holl rwymedigaethau o dan y Contract, ac mae'n cytuno, yn amodol ar Amod 6.1, na thelir unrhyw gostau, taliadau neu dreuliau ychwanegol am ddarparu'r Gwasanaethau.

6.4 Bydd y Contractwr yn cyflawni'r Gwasanaethau a holl rwymedigaethau eraill y Contractwr yn unol â'r Contract yn fanwl a bydd yn cydymffurfio â, ac yn cadw'n gaeth at, unrhyw gyfarwyddiadau gan Estyn ynghylch unrhyw faterion sy'n gysylltiedig â'r Contract neu'n ymwneud ag ef. Bydd y Contractwr yn derbyn cyfarwyddiadau gan PAEM a chan y rhai hynny sydd wedi'u hawdurdodi i roi cyfarwyddiadau ar ei ran yn unig – y Cyfarwyddwr Cynorthwyol Perthnasol, y Cydlynydd Arolygu neu unrhyw unigolyn/unigolion eraill sydd wedi'u hawdurdodi'n briodol y gall Estyn hysbysu'r Contractwr amdanynt yn ysgrifenedig o dro i dro.

6.5 Ni fydd y Contractwr:

(a) yn gwneud unrhyw gyhoeddiad nac yn creu unrhyw gyhoeddusrwydd mewn perthynas ag Estyn neu'r Gwasanaethau heb gytundeb ysgrifenedig Estyn ymlaen llaw;

(b) yn ystod neu mewn cysylltiad â darparu'r Gwasanaethau a/neu gyflawni unrhyw un o rwymedigaethau eraill y Contractwr yn unol â'r Contract, yn cynnig neu'n marchnata gwasanaethau eraill i'r Contractwr; a/neu

(c) yn hysbysebu neu roi cyhoeddusrwydd i'r ffaith o waith y Contractwr i Estyn mewn unrhyw lenyddiaeth farchnata neu hyrwyddo mewn perthynas ag unrhyw fusnes y mae'r Contractwr yn gysylltiedig ag ef, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, heb gytundeb ysgrifenedig Estyn ymlaen llaw.

(ch) yn gwneud unrhyw ddatganiad cyhoeddus, ar lafar neu yn ysgrifenedig, sy'n feirniadol o Estyn a'i system arolygu; a/neu

(d) yn gwneud unrhyw ddatganiad cyhoeddus, ar lafar neu yn ysgrifenedig, nac yn cyflawni unrhyw weithred y gall ym marn resymol Estyn ei hystyried yn feirniadaeth neu a all fel arall fod yn niweidiol i'r system arolygu neu ddwyn anfri ar y system arolygu a/neu enw da Estyn.

## 7. GWEITHGAREDDAU ERAILL CONTRACTWR

7.1 Gall y Contractwr fod yn gysylltiedig, yn gyflogedig neu'n ymwneud ag unrhyw fusnes, sefydliad, proffesiwn neu weithgarwch arall nad yw'n rhoi'r Contractwr mewn sefyllfa lle mae gwrthdaro buddiannau ag Estyn. Fodd bynnag, ni all y Contractwr fod yn gysylltiedig mewn unrhyw ffordd â busnes neu sefydliad sy'n cystadlu, neu a all gystadlu, â busnes Estyn heb gael caniatâd ysgrifenedig gan Estyn ymlaen llaw.

## 8. GWRTHDARO BUDDIANNAU

8.1 Bydd y Contractwr yn hysbysu Estyn yn ysgrifenedig cyn gynted ag sy'n ymarferol bosibl dan yr amgylchiad(au) am unrhyw wrthdaro buddiannau neu wrthdaro buddiannau posibl neu unrhyw amgylchiad y gellid canfod yn rhesymol ei fod yn achosi gwrthdaro buddiannau neu wrthdaro buddiannau posibl ("gwrthdaro buddiannau canfyddedig") mewn perthynas â darparu'r Gwasanaethau, a fydd yn cynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i:

(a) ymwneud cyhoeddus neu breifat â materion y Sefydliad y mae a wnelo'r Gwasanaethau ag ef o ran y Contractwr, a/neu unrhyw briod neu aelod o deulu'r Contractwr neu ffrind i'r Contractwr y soniwyd amdano uchod; ac

(b) ymwneud cyhoeddus neu breifat gan y Contractwr ym materion unrhyw gyfundrefn yr ystyrir gan Estyn ei bod yn cystadlu â'r Sefydliad y mae a wnelo'r Gwasanaethau ag ef.

At ddiben Amod 8 hwn, rheolau sy'n gwahardd defnyddio yn ystod arolygiad oherwydd gwrthdaro buddiannau posibl:

a) Wedi'i gyflogi gan gonsortia addysg
Os yw **arolygydd** yn cael eu cyflogi ar hyn o bryd neu wedi gweithio o'r blaen i'r darparwr (gan gynnwys gweithio mewn rôl ymgynghorol/cynghori, e.e. o dan gontract am wasanaethau) o fewn y **ddwy** flynedd flaenorol, bydd yr arolygydd yn cael ei atal rhag arolygu y darparwr a'r awdurdodau lleol cysylltiedig .

b) Cyflogedig gan y darparwr
Os bydd yr **arolygydd** yn cael eu cyflogi ar hyn o bryd neu wedi gweithio o'r blaen i'r darparwr (gan gynnwys gweithio mewn rôl ymgynghorol/cynghori, e.e. o dan gontract am wasanaethau) o fewn y **tair** blynedd flaenorol, fydd atal erbyn y darparwr a'r awdurdod lleol cysylltiedig ei.

c) Aelod o'r teulu a gyflogir neu sy'n ymwneud â darparwr
Os yw **aelod o'r teulu*** yn cael ei gyflogi ar hyn o bryd neu sydd wedi gweithio i'r darparwr yn flaenorol (gan gynnwys gweithio mewn rôl ymgynghoriaeth / ymgynghorol, ee dan gontract ar gyfer gwasanaethau), cyfraniad cymdeithasol neu Rheoli gwrthdaro buddiannau posibl yn gysylltiedig â gwaith arolygu broffesiynol uniongyrchol ym materion Y darparwr, ee Wedi bod neu wedi bod yn ddisgybl / myfyriwr, llywodraethwr, cynghorydd neu gontractwr o fewn y **dau** blynyddoedd blaenorol, bydd yr ataliad yn erbyn y darparwr.

ch) Cyfraniad cymdeithasol neu broffesiynol gyda darparwr
Os oes gan yr **arolygydd** cymdeithasol neu broffesiynol ymwneud yn uniongyrchol y materion y darparwr, e.e. neu a fu disgybl/myfyriwr, llywodraethwr, cynghorydd neu gontractwr o fewn y **tair** blynedd flaenorol, fydd atal erbyn y darparwr.

* Diffinnir 'aelodau'r teulu' fel rhiant, brawd neu chwaer, priod / partner a / neu blentyn. Ac eithrio perthnasau sy'n ymgymryd â chyfnodau o waith cyflenwi achlysurol byrdymor mewn ysgol neu sydd â chysylltiadau achlysurol iawn gydag ysgol, er enghraifft, yn gweithredu fel aelod o theatr mewn grŵp addysg neu ddarparu sesiwn hyfforddi mewn gweithgareddau chwaraeon neu greadigol.

I gael mwy o arweiniad ar y modd y bydd Estyn yn rheoli gwrthdaro buddiannau ac yn lleihau risg amgyffrediad o ragfarn mewn perthynas â gwaith arolygu, cyfeiriwch at bolisi Estyn ar rheoli achosion o wrthdaro buddiannau mewn perthynas â gwaith arolygu ar ein gwefan.

7.2 Os yw Estyn yn ei farn resymol yn credu bod, neu y gallai unrhyw ddigwyddiad, sefyllfa neu gysylltiad a hysbyswyd gan y Contractwr yn unol ag Amod 7.1 uchod neu unrhyw ddigwyddiad, sefyllfa neu gysylltiad arall y daw Estyn yn ymwybodol ohono achosi gwrthdaro buddiannau gwirioneddol, posibl neu ganfyddedig, bydd gan Estyn hawl i derfynu'r Contract ar unwaith heb unrhyw atebolrwydd o gwbl.

7.3 Mae'r Contractwr yn gwarantu nad oes unrhyw delerau penodol mewn unrhyw gontract neu drefniant gydag unrhyw drydydd parti sy'n ei atal neu a fwriedir i'w atal rhag gwneud y Contract hwn ac nad ydyw trwy wneud y Contract hwn yn torri unrhyw ddyletswydd o ddidwylledd neu ffyddlondeb ymhlyg. Mae'r Contractwr yn ymrwymo i hysbysu Estyn os yw'n ymwybodol o unrhyw reswm pam na ddylai ymgymryd â'r Arolygiad.

## 9. GWAHANIAETHU

9.1 Ni fydd y Contractwr yn gwahaniaethu'n anghyfreithlon o fewn ystyr a chwmpas darpariaethau Deddf Cydraddoldeb 2010 neu unrhyw ddiwygiadau statudol, ailddeddfu neu newidiad at hynny o dro i dro mewn. Bydd y Contractwr yn cymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod holl ddarpariaethau'r Amod hwn yn cael eu cadw.

## 10. STATWS Y CONTRACTWR

10.1 Cytuna Estyn a'r Contractwr nad oes unrhyw beth yn y Contract hwn sy'n creu (neu y bwriedir iddo greu) perthynas cyflogaeth rhyngddynt. Caiff y Contractwr ei gyflogi fel Contractwr hunangyflogedig sy'n cyflawni contract ar gyfer gwasanaethau. Rhaid i'r Contractwr hysbysu Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi eu bod yn hunangyflogedig ac yn gyfrifol am dalu eu Hywswiriant Gwladol a'u trethi eu hunan.

10.2 Ni fydd y Contractwr yn ei gynrychioli ei hun, nac yn dweud na gwneud dim mewn modd a allai arwain pobl i gredu bod y Contractwr yn asiant Estyn na bod Estyn yn gyfrifol am weithredoedd neu atebolrwydd y Contractwr.

10.3 Ni fydd dim yn y Contract hwn yn gosod unrhyw atebolrwydd ar Estyn mewn perthynas ag unrhyw atebolrwydd a achosir gan y Contractwr i unrhyw berson neu endid arall ond ni chymerir hyn yn eithrio na chyfyngu ar unrhyw atebolrwydd gan Estyn a allai godi oherwydd torri'r Contract hwn neu unrhyw esgeulustra ar ran Estyn.

10.4 Bydd y Contractwr yn sicrhau, wrth ddarparu'r Gwasanaethau ac wrth ohebu ag Estyn, ei fod bob amser yn gwneud hynny yn enw'r endid cyfreithiol y cyflwynodd ei dendr ar gyfer darparu'r Gwasanaethau yn ei enw.

## 11. DIOGELEDD AC IECHYD A DIOGELWCH

11.1 Mae'r Contractwr yn cytuno y bydd ef yn bersonol yn darparu'r Gwasanaethau gyda gofal a medr rhesymol a hyd orau ei allu, ac y bydd bob amser yn cydweithredu gyda chynlluniau a chyfarwyddiadau PAEM ac y bydd yn cydymffurfio â'r holl Ganllawiau perthnasol ac Arweiniad Arolygu.

11.2 Rhaid i'r Contractwr gydymffurfio'n llawn ag unrhyw drefniadau diogelwch y tybir eu bod yn angenrheidiol gan Estyn. Rhaid i'r Contractwr hefyd gydymffurfio â Pholisi a Threfniadau Iechyd a Diogelwch Estyn, sydd ar gael ar wefan Estyn, i'r graddau y maent yn berthnasol i'r contract.

11.3 Bydd y Contractwr, ar ei gost ei hun, yn darparu'r cyfryw gyfleusterau ac offer y gall fod eu hangen arno er mwyn cynnal y Gwasanaethau'n briodol. Bydd hyn yn cynnwys (heb gyfyngiad) gliniadur, cyfeiriad e-bost a ffôn symudol. Cyfrifoldeb y Contractwr yw darparu, ar ei draul ei hun, yr holl offer diogelwch y mae eu hangen arno i gynnal y Gwasanaethau yn ddiogel a chan gydymffurfio â deddfwriaeth iechyd a diogelwch gyfredol.

11.4 Bydd y Contractwr yn gyfrifol am gydymffurfio â'r holl ragofalon diogelwch angenrheidiol i'w amddiffyn gan gynnwys yr holl ragofalon gofynnol gan unrhyw Ddeddfwriaeth berthnasol. Rhaid i'r Contractwr gydweithredu'n llawn â'r Sefydliad i sicrhau bod yr ymrwymiadau hyn yn cael eu cyflawni'n briodol.

11.5 Bydd y Contractwr yn meddu ar wiriad "Datgeliad Manylach gyda Rhestr

Waharddedig Plant" gan y DBS, wedi'i gynnal nid mwy na thair (3) blynedd cyn Dyddiad Dechrau yr Arolygiad. Os bydd y Contractwr yn methu â bodloni gofynion yr Amod 11.5 hwn i foddhad Estyn, yna bydd gan Estyn hawl i derfynu'r Contract ar unwaith heb unrhyw atebolrwydd o gwbl.

## 12. TROSGLWYDDO AC IS-OSOD

12.1 Bydd y Contractwr yn darparu'r Gwasanaethau yn bersonol ac ni fydd yn rhoi, bargeinio, trosglwyddo, newyddu neu'n is-osod na gwaredu'r Contract neu unrhyw ran ohono mewn dull arall.

## 13. SICRHAU ANSAWDD

13.1 Rhaid i Estyn fonitro ac arfarnu ansawdd y Gwasanaethau a ddarperir gan y Contractwr, a fydd yn cynnwys (ond ni fydd yn gyfyngedig i) cynnal ymweliadau â'r Sefydliad yn ystod yr Arolygiad i fonitro sut caiff y Gwasanaethau eu darparu.

13.2 Cyfrifoldeb y Contractwr yw rheoli ansawdd yn unol â gofynion unrhyw Lawlyfrau Arweiniad ac arweiniad neu gyfarwyddiadau pellach a gyhoeddir gan Estyn o dro i dro. Dylai contractwyr ystyried, a chydweithredu gydag Estyn hefyd wrth roi gweithdrefnau sicrhau ansawdd Estyn ar waith fel y'u hamlinellwyd yn y fersiwn ddiweddaraf o "Trefniadau Estyn ar gyfer sicrhau ansawdd gwaith arolygiadau". Bydd hawl gan Estyn i fonitro ac asesu ansawdd y Gwasanaethau a ddarperir gan y Contractwr, a fydd yn cynnwys cynnal ymweliadau â'r Lleoliad a gwneud ymarferiad monitro ar bob Adroddiad.

13.3 Bydd y Contractwr yn cydweithredu'n llawn ag AEM neu archwilwyr statudol Estyn, eu hasiantiaid a benodwyd yn briodol ac unrhyw aelodau enwebedig o staff Estyn a benodwyd i wneud ymweliadau monitro yn unol ag Amod 13.1 uchod, gan gynnwys sicrhau bod ymatebion cyflym yn cael eu rhoi i bob cais am wybodaeth. Bydd y cymorth yn ymestyn i ddarparu ar gais pob dogfennaeth berthnasol (ym marn Estyn) i Estyn eu harchwilio, a mynychu unrhyw gyfarfod a phob cyfarfod yn ymwneud â'r Arolygiad yn y Sefydliad neu rywle arall.

13.4 Os cynhelir ymweliad monitro yn unol ag Amod 13.1 uchod, bydd Estyn yn hysbysu'r Contractwr yn ysgrifenedig ynghylch sut mae'r ddarpariaeth Gwasanaethau gan y Contractwr yn bodloni gofynion Estyn fel y nodir hwy yn yr Arweiniad a'r arweiniad atodol a gyhoeddir gan Estyn. Hefyd, yn ddiweddarach, bydd y Contractwr yn cael arfarniad ysgrifenedig ffurfiol am ansawdd yr Adroddiad mewn perthynas â'r Sefydliad dan sylw. Bydd arfarniad o ddarpariaeth y Gwasanaethau gan y Contractwr yn cynnwys dyfarnu graddau mewn perthynas ag ansawdd darpariaeth y Gwasanaethau, y darperir manylion ysgrifenedig am hynny i'r Contractwr (gelwir yn adborth datblygol ar hyn o bryd).

13.5 Bydd Estyn yn sicrhau ansawdd pob adroddiad ac yn parhau i gasglu ynghyd yr holl wybodaeth sicrhau ansawdd ar gyfer pob Contractwr yn rheolaidd. Bydd hyn yn

caniatáu i ni nodi unrhyw berfformiad anfoddhaol. Bydd ein camau gweithredu yn amrywio yn ôl gwahanol lefelau o berfformiad anfoddhaol. Os bydd gan Estyn bryderon am ansawdd gwaith unrhyw Gontractwr, bydd yn ymdrin â hyn yn unol â pholisi 'Trefniadau Estyn ar gyfer sicrhau ansawdd arolygiadau dan arweiniad Estyn'.

## 14. ADRODDIADAU A FFURFLEN FEWNBWN ADRODD

14.1 Bydd Estyn yn darparu Adroddiad ysgrifenedig cyflawn ar gyfer y Lleoliad i'r cyrff a ragnodir dan baragraff 13(2) Atodlen 26 y Ddeddf.

14.2 O fewn y cyfnod priodol a nodwyd yn y Rheoliadau ar gyfer paratoi'r Adroddiad yn ysgrifenedig, sydd yn 45 (bedwar deg pump) Diwrnod Gwaith o ddechrau'r arolygiad ac ialluogi Estyn i fodloni terfynau amser cyhoeddi statudol presennol, rhaid i'r Contractwr,gan ddefnyddio templedi a ddarperir ar system Allrwyd Estyn:

(i) (ar ei draul/thraul ei hun) ddarparu'n electronig i Estyn drwy system yr YAR y Ffurflen Fewnbwn Adrodd (wedi'i fformatio'n gywir ar ffurf Microsoft Word 2010 neu'n ddiweddarach) o fewn **pum 5 niwrnod gwaith** o ddiwedd yr arolygiad;
(ii) rhoi gwybod i'r Cydlynydd Arolygu dynodedig bod yr Adroddiad yn barod ar gyfer Sicrhau Ansawdd drwy anfon neges e-bost at ic@estyn.llyw.cymru;
(iii) ymateb i'r golygiadau cyn pen pymtheg (15) niwrnod gwaith i ddiwedd yr arolygiad, a hysbysu'r golygydd cyntaf a'r ail olygydd, yr arolygydd tîm a'r CydAr dynodedig ei fod/bod wedi gwneud hynny

*Sylwch, bydd Estyn yn trefnu i adroddiadau gael eu cyfieithu. Lle caiff yr adroddiad ei gyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg, bydd y CydAr yn gofyn i'r Contractwr gadarnhau bod y cyfieithiad yn adlewyrchu'r adroddiad gwreiddiol.

(iv) ymateb yn brydlon i unrhyw olygiadau dilynol a rhoi gwybod i'r CydAr dynodedig pan fydd wedi gwneud hynny;
(v) ymateb i unrhyw faterion eraill a nodwyd ar ôl y cam prawfddarllen, gan gynnwys gwiriadau cywirdeb ffeithiol.

14.3 Bydd y Contractwr yn sicrhau bod gan y Contractwr:

(a) mynediad i'r rhyngrwyd; (rhaid bod eich gliniadur yn galluogi WiFi)
(b) system weithredu Windows (XP neu'n uwch);
(c) mynediad at borwr rhyngrwyd a gefnogir h.y. Edge, Chrome (y fersiwn ddiweddaraf), Firefox (y fersiynau diweddaraf a blaenorol), Safari (y fersiwn ddiweddaraf): a
(ch) mynediad at MS Word 2010 (neu'n ddiweddarach)

**Sylwer**: i ddefnyddio system templed Ffurflen Farnau yn yr YAR yn llwyddiannus, mae angen fersiwn lawn o MS Word 2010 (neu'n ddiweddarach).

Mae system yr YAR yn offeryn sydd wedi'i seilio ar Microsoft, ac felly mae risgiau i ddefnyddio dyfeisiau Apple yn llwyddiannus pan fydd yn y modd "efelychu cyfrifiadur". Ni ellir defnyddio cyfrifiaduron llechen (yn cynnwys iPads) ar hyn o bryd.

i alluogi'r Contractwr i gyflawni ei rwymedigaethau yn unol ag Amod 14.2.

14.4 Rhaid i safon strwythur a chynnwys y Ffurflen Fewnbwn Adrodd olygu na fydd angen fawr o waith golygu ychwanegol gan Estyn a rhaid iddi gydymffurfio ag arweiniad ysgrifennu Estyn, fel y'i cyhoeddir ar y Wefan o dro i dro.

14.5 Rhaid i'r Contractwr sicrhau bod yr holl dystiolaeth sy'n cael ei chofnodi naill ai ar bapur neu'n electronig yn cael ei chadw o fewn y Ffurflen Fewnbwn y Tîm erbyn diwedd cyfnod yr arolygiad ar y safle. Bydd angen i'r ffeiliau electronig sy'n cynnwys y Ffurflen Fewnbwn y Tîm a'r Ffurflen Fewnbwn Adrodd gael eu lanlwytho i YAR Estyn. Ar ôl eu derbyn, daw Estyn yn berchen ar y ffurflenni hyn.

14.6 Bydd y Contractwr yn gyfrifol am sicrhau bod y wybodaeth a ddarperir yn unol ag Amod 14.1 ac 14.2 uchod wedi'i gwirio, a'i bod yn gyflawn, yn gywir ac yn rhydd o unrhyw wall, a bod y data yn yr Adroddiad yn cyd-fynd â'r data ar Ffurflen Fewnbwn Adrodd a bod y ddwy ddogfen yn cael eu cyflwyno yn y fformat a nodwyd.

14.7 Mae'n rhaid i'r Adroddiad fod yn gywir yn ffeithiol, cynnig cynrychiolaeth gywir o'r Lleoliad adeg cynnal yr Arolygiad ohono, a dilyn y gofynion fel y'u cyflwynir yn Llawlyfr Arweiniad y cyfnod perthnasol, yn ogystal ag yng "Nghanllaw Ysgrifennu Estyn" (sydd ar gael ar wefan Estyn).

14.8 Bydd Estyn, yn unol â'r weithdrefnau sicrhau ansawdd mewnol, yn golygu'r adroddiad cyn ei anfon i'r Sefydliad i wirio ei gywirdeb ffeithiol. Caiff unrhyw argymhelliad i ddiwygio'r adroddiad ei drafod â'r Contractwr cyn ei gyhoeddi.

14.9 Mae'r Contractwr yn cydnabod y bydd Estyn yn adolygu, asesu a graddio'r Adroddiad am gydymffurfio â darpariaethau'r amod 14 hwn. Bydd Estyn yn dyfarnu un o'r graddau canlynol:

(a) Gradd A lle bo Estyn o'r farn bod yr Adroddiad yn bodloni gofynion, ond a all gynnwys un neu ddau o fân ddiffygion;
(b) Gradd B lle bo Estyn o'r farn bod yr Adroddiad yn bodloni gofynion, ond bod ganddo nifer o fân ddiffygion;
(c) Gradd C lle bo Estyn o'r farn bod yr Adroddiad yn bodloni gofynion, ond bod ganddo nifer o ddiffygion;
(ch) Gradd D lle bo Estyn o'r farn nad yw'r Adroddiad yn bodloni gofynion.

## 15. CWYNION

15.1 Bydd y Contractwr yn sicrhau ei fod yn gyfarwydd â Gweithdrefn Gŵynion Estyn ar y Wefan. Rhaid i'r Contractwr sicrhau bod unrhyw berson sy'n gysylltiedig â'r Arolygiad, neu yr effeithir arno gan yr Arolygiad, yn cael cyfle teg i godi materion

ynglŷn â'r Arolygiad tra'i fod yn y Sefydliad.

15.2 Pan dderbynnir Cwyn gan y Contractwr, rhaid i'r Contractwr geisio datrys y Gŵyn ar unwaith.

15.3 Os nad yw'r Contractwr yn gallu datrys y gŵyn ar unwaith, rhaid i'r Contractwr hysbysu'r Cydlynydd Arolygu am y Gŵyn a'r mesurau a gymerwyd i geisio datrys y Gŵyn.

15.4 Rhaid i'r Contractwr (ar ei draul ei hun) gydweithredu'n llawn ag Estyn mewn unrhyw ymchwiliad a gynhelir gan Estyn i unrhyw Gŵyn, a rhaid iddo heb gyfyngiad (ar ei draul ei hun) ddarparu'r cyfryw gymorth y gall Estyn ofyn amdano, gan gynnwys mynychu cyfweliadau. Rhaid i'r Contractwr wneud ei orau glas i ymateb yn llawn i unrhyw ohebiaeth a darparu i Estyn unrhyw wybodaeth y gofynna Estyn amdani neu a all fod yn ei feddiant cyn pen pum (5) niwrnod gwaith o dderbyn cais Estyn.

15.5 Rhaid i'r Contractwr sicrhau ei fod yn cadw'r holl fanylion a'r wybodaeth ynglŷn â'r Cwynion yn gyfrinachol.

15.6 Mae'r Contractwr yn cydnabod rhwymedigaethau cyfreithiol Estyn a nodir yn Amod 21 ac mae'n derbyn na fydd Estyn o bosibl yn gallu cydymffurfio bob amser â'r rhwymedigaethau cyfrinachedd cyffredinol a gynhwysir yng Ngweithdrefnau Cwynion Estyn. Rhaid i Estyn, pan ystyria ei bod yn ymarferol gwneud hynny, hysbysu ac ymgynghori â'r holl unigolion sydd wedi darparu gwybodaeth cyn datgelu'r gyfryw wybodaeth.

## 16. <u>TALIAD</u>

16.1 Oni nodir yn wahanol yn y Gwahoddiad i Dendro, bydd taliad yn ddyledus cyn pen 30 diwrnod o dderbyn a chytuno anfonebau, yn cael eu cyflwyno ar ddiwedd pob mis, am waith a gwblhawyd i foddhad Estyn. Rhaid i'r anfoneb fod yn Bris y Contract oni chytunwyd fel arall gan Estyn. Rhaid i bob anfoneb ddangos y manylion canlynol yn eglur:

(a) enw a chyfeiriad y Contractwr, a rhif adnabod proffil yr arolygydd;
(b) enw'r Sefydliad a arolygwyd;
(c) dyddiad yr Arolygiad;
(ch) rhif yr anfoneb a dyddiad yr anfoneb;
(d) Pris y Contract;
(dd) enw a chost unrhyw eitemau/costau ychwanegol a gytunwyd, os oes rhai;
(e) TAW lle bydd yn gymwys a Rhif Cofrestru TAW;
(f) cyfarwyddiadau arbennig i dalu; ac
(ff) enw cyswllt a rhif ffôn ar gyfer ymholiadau.

16.2 Gwneir holl daliadau Estyn drwy BACS, sy'n galluogi gwneud taliad yn uniongyrchol i gyfrif banc neu gymdeithas adeiladu'r Contractwr. Bydd y Contractwr yn gyfrifol

am roi manylion banc (ac unrhyw newidiadau i'r manylion) i Estyn at y diben hwn. Dylid dangos TAW, lle bydd yn berthnasol, ar wahân ar bob anfoneb fel taliad net yn gyfan gwbl.

16.3 Bydd taliad yn amodol ar y Gwasanaethau a gyflwynir gan gynnwys yr Adroddiad a'r Ffurflen Fewnbwn Adrodd a gwybodaeth ychwanegol a ddarparwyd gan y Contractwr yn unol ag Amod 14 uchod yn gyflawn, yn gywir ac yn rhydd o wallau, ac wedi bodloni safonau ansawdd Estyn ar gyfer y Gwasanaethau.

16.4 Ac eithrio pan fydd cymeradwyaeth ysgrifenedig blaenorol gan Estyn, ni fydd unrhyw daliad am unrhyw waith a gyflawnir gan y Contractwr sydd y tu hwnt i gwmpas y Gwasanaethau neu ar ôl Dyddiad Cwblhau'r Contract neu ddyddiad terfynu'r Contract (os yw'n gynharach).

16.5 Bydd y Contractwr yn gyfrifol am roi cyfrif i Dollau Tramor a Chartref Ei Mawrhydi a Chyllid y Wlad am yr holl drethi a thollau cymwys pa un a yw ar incwm neu wariant.

## 17. TRETH AR WERTH

17.1 Bydd Estyn yn talu i'r Contractwr, Bris y Contract sy'n cyfrif yn gywir am unrhyw TAW sy'n berthnasol, os oes galw gyfreithlon, yng nghwrs busnes arferol, er y werth cyflenwi'r Gwasanaethau a ddarperir yn unol â'r Contract.

17.2 Bydd unrhyw anfoneb neu gais arall am daliad o arian sy'n ddyledus i'r Contractwr o dan y Contract, os yw'r Contractwr yn endid trethadwy, ar yr un ffurf ac yn cynnwys yr un wybodaeth ag y byddai petai'n anfoneb dreth at ddibenion Rheoliadau a wnaed o dan Ddeddf Cyllid 1972

## 18. CONTRACTWR AMGEN

18.1 Mae Estyn yn cadw'r hawl heb achosi unrhyw atebolrwydd i'r Contractwr i ddefnyddio Contractwr amgen unrhyw bryd tra bydd y Contract mewn grym yn sgil anallu'r Contractwr i ddarparu'r Gwasanaethau neu unrhyw ran ohonynt am unrhyw reswm y tu hwnt i reolaeth Estyn.

## 19. RHODDION LLWGR NEU DALIADAU COMISIWN

19.1 Ni fydd y Contractwr, heb ganiatâd ysgrifenedig Estyn ymlaen llaw, yn derbyn unrhyw rodd, comisiwn neu fudd neu gymhelliant ariannol arall, ac ni fydd ychwaith yn derbyn unrhyw letygarwch ymhellach na lletygarwch ar lefel gymedrol a chonfensiynol, gan y Sefydliad neu unrhyw berson arall wrth ddarparu'r Gwasanaethau. Bydd y Contractwr yn ddi-oed yn rhoi i Estyn fanylion unrhyw rodd neu letygarwch anghymesur a gynigir iddo. Bydd y Contractwr, hefyd, yn cynnig talu am unrhyw luniaeth a ddarperir gan Sefydliadau yn ystod yr Arolygiad.

19.2 Ni fydd y Contractwr:

(a) yn cynnig na'n rhoi, na'n cytuno i roi, i unrhyw berson yn Estyn neu yng nghyflogaeth y Sefydliad neu berson a gyflogir fel arall yn y Sefydliad, unrhyw rodd neu gydnabyddiaeth o unrhyw fath fel cymhelliant neu wobr am wneud neu ymatal rhag gwneud neu am fod wedi gwneud neu ymatal rhag gwneud unrhyw weithred mewn perthynas ag ennill neu weithredu'r Contract hwn neu unrhyw gontract arall i Estyn neu am ddangos neu ymatal rhag dangos ffafr neu anfri tuag at unrhyw berson mewn perthynas â'r Contract hwn neu unrhyw gontract arall gydag Estyn neu unrhyw gleient tebyg; a/neu ni fydd

(b) yn gwneud y Contract hwn nac unrhyw gontract arall gydag Estyn yng nghyswllt yr hyn y mae comisiwn wedi ei dalu neu wedi ei gytuno i'w dalu ganddo ef neu ar ei ran, neu hyd y gŵyr amdano, oni bai cyn y contract bod manylion unrhyw gomisiwn o'r fath a thelerau ac amodau unrhyw gytundeb am daliad o hynny wedi eu datgelu yn ysgrifenedig i Estyn.

19.3 Bydd unrhyw achos o dorri'r Amod hwn gan y Contractwr (gyda neu heb wybodaeth y Contractwr) neu gomisiynu unrhyw drosedd gan y Contractwr:

19.3.1 o dan y Ddeddf Atal Llygredigaeth, 1906 i 1916, neu o dan Deddfwriaeth sy'n creu troseddau mewn perthynas â gweithredoedd twyllodrus neu yn y gyfraith gyffredin mewn perthynas â gweithredoedd twyllodrus mewn perthynas â'r Contract, unrhyw gytundeb arall gyda'r Awdurdod neu unrhyw Gontract arall am Wasanaeth Ei Mawrhydi; neu

19.3.2 sy'n twyllo, yn ceisio twyllo neu'n cynllwynio i dwyllo Estyn, PAEM neu AEM,

yn rhoi hawl i Estyn derfynu'r Contract ar unwaith ac adennill gan y Contractwr y swm o unrhyw golled fydd yn deillio o derfyniad o'r fath a/neu adennill gan y Contractwr swm neu werth unrhyw rodd, cydnabyddiaeth neu gomisiwn o'r fath.

## 20. CYFLAFAREDDU

20.1 Ac eithrio Amod 15 (Cwynion) uchod, caiff gwahaniaethau neu gwestiynau rhwng y Partïon mewn perthynas ag unrhyw fater neu beth yn deillio o'r Contract neu'n gysylltiedig â'r Contract, ar wahân i fater neu beth y mae penderfyniad Estyn yn derfynol ac yn bendant o dan y Contract a heblaw i'r graddau y gwnaethpwyd darpariaeth arbennig ar gyfer cyflafareddiad mewn man arall yn y Contract, eu cyfeirio i gyflafareddiad cyflafareddwr unigol i'w benodi yn unol ag Adran 16(3) o'r Ddeddf Cyflafareddu, a Chaerdydd, Cymru fydd yn cael ei dynodi fel canolfan cyflafareddu felly, ac mae'r Partïon yn cytuno, yn amodol ar ddarpariaethau Adran 58(2) o Ddeddf Cyflafareddu 1996, y bydd penderfyniad y cyfryw gyflafareddwr yn

derfynol ac yn rhwymol ar y Partïon.

20.2 Pe bai'r Partïon yn methu gwneud y penodiad yn unol ag Adran 16(3) y Ddeddf Cyflafareddu caiff y penodiad ei wneud gan Lywydd (neu os yw'r Llywydd yn amharod, yn analluog neu nid yw ar gael, yr Is-lywydd) presennol Cymdeithas y Cyfreithwyr.

20.3 Ystyrir bod y cyflafareddiad wedi cychwyn at y dibenion a nodir yn Adran 14(1) y Ddeddf Cyflafareddu pan fydd un Parti yn anfon hysbysiad ysgrifenedig at y Parti arall yn nodi y dylid cyfeirio'r mater i'w gyflafareddu.

20.4 Bydd y cyflafareddwr yn datrys yr anghydfod yn unol â chyfreithiau hawliau Cymru a Lloegr.

20.5 Caiff unrhyw gostau'n deillio o gyflafareddu o'r fath eu talu yn ôl cyfarwyddyd y cyflafareddwr. Er mwyn osgoi amheuaeth, mae costau'n ymwneud â chyflafareddu'n cynnwys cost weinyddol resymol yr amser a dreuliwyd yn ymchwilio i'r mater a'r holl amser a'r costau yn ymwneud â pharatoi ar gyfer a chynnal y cyflafareddiad.

## 21. <u>PERCHNOGAETH GWYBODAETH</u>

21.1 Ni fydd y Contractwr wrth ddarparu'r Gwasanaethau a rhwymedigaethau eraill yn unol â'r Contract yn torri unrhyw hawlfraint neu hawliau perchnogol eraill unrhyw drydydd parti a bydd y Contractwr yn indemnio Estyn yn erbyn pob gweithred, gorchymyn, cost a thraul (gan gynnwys costau cyfreithiol) y gall Estyn neu'r Goron eu dioddef neu eu cael o ganlyniad neu mewn cysylltiad ag unrhyw achos o dorri'r Amod hwn.

21.2 Mae'r Contractwr yn trosglwyddo i Estyn yr holl hawlfraint, hawliau yn natur yr hawlfraint, hawl dylunio, hawliau cyfrinachedd a hawliau eiddo deallusol eraill ledled y byd (breiniedig, dyfodol a dichonadwy, ac yn cynnwys unrhyw adnewyddiadau, estyniadau, dychweliadau, a hawliau gweithredu cronedig) ("yr Hawliau") mewn ac i unrhyw Ddogfennau neu Ddogfennau Arolygu ("y Deunydd"). Rhaid i unrhyw gopïau (gan gynnwys rhai electronig) o'r Deunydd y gall y Contractwr eu cadw gael eu dinistrio'n ddiogel 6 (chwe) mis o ddyddiad cyhoeddi'r adroddiad arolygu yn unol â pholisi cadw cofnodion Estyn. Ni fydd y Contractwr yn cadw unrhyw gopïau pellach o'r Deunydd.

21.3 Bydd y Contractwr yn cadw at bolisi Estyn ar gadw cofnodion, sydd ar gael ar y wefan.

21.4 Ni fydd y Contractwr (neu unrhyw berson arall sy'n gysylltiedig â chyflawni'r Contract hwn) ar unrhyw adeg yn cysylltu neu'n ymateb i gyswllt gan unrhyw faes o'r cyfryngau ynghylch y Gwasanaethau neu rwymedigaethau eraill y Contractwr a ddarperir o dan y Contract.

21.5 Ni fydd y Contractwr (neu unrhyw berson arall sy'n gysylltiedig â chyflawni'r Contract hwn) ar unrhyw adeg yn atgynhyrchu neu'n lledaenu unrhyw Ddeunydd neu wybodaeth a gafwyd yn ystod y Contract i unrhyw berson neu gorff arall heb ymgynghori ymlaen llaw gydag Estyn a chaniatâd ysgrifenedig Estyn. Ni fydd y Contractwr (neu unrhyw berson arall sy'n gysylltiedig â chyflawni'r Contract hwn) ychwaith yn defnyddio'r cyfryw Ddeunydd neu wybodaeth i ddatblygu unrhyw ddeunyddiau pellach neu at unrhyw ddiben arall pa beth bynnag heb ymgynghori ymlaen llaw gydag Estyn a chael caniatâd ysgrifenedig Estyn.

21.6 Mae'r Contractwr yn gwarantu i beidio â datgelu na defnyddio unrhyw wybodaeth am staff neu ddysgwyr yn y Sefydliad nac am dendrau neu gontractwyr i'r Sefydliad i unrhyw berson neu gorff arall ac eithrio hynny sy'n angenrheidiol o dan Amodau'r Contract neu fel arall a ragnodir gan Ddeddfwriaeth.

21.7 Mewn perthynas â phob Data Personol, Estyn fydd y Rheolydd Data a'r Contractwr fydd y Prosesydd Data. Mae'r Contractwr yn gwarantu ac yn ymrwymo mewn perthynas â'r Data Personol:

(a) y bydd y Data Personol yn cael ei brosesu yn unol â gofyniad y Contract hwn yn unig, neu unrhyw gyfarwyddiadau ysgrifenedig Estyn mewn perthynas â'r cyfryw Ddata Personol fel y cyhoeddir gan Estyn o dro i dro;
(b) bydd y Contractwr yn cydymffurfio ar bob cyfrif â gofynion Egwyddor Saith Diogelu Data Personol, fel a bennir yn Atodlen 1 y DDD, fel pe bai yn Reolydd Data; a
(c) bydd y Contractwr yn hysbysu'r unigolion sy'n destun y Data Personol mai Estyn yw'r Rheolydd Data, ac am y dibenion y bydd y Data Personol sy'n ymwneud â hwy yn cael ei brosesu.

21.8 Mae'r Contractwr yn cydnabod ymhellach bod Estyn yn ddarostyngedig i rwymedigaethau statudol o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a bod gofyniad ar Estyn i ymateb i geisiadau am wybodaeth a wneir o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth.

21.9 Bydd y Contractwr, trwy gyflawni'r Contract, yn cefnogi'n weithredol ymrwymiad Estyn i'r DDD a'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth fel y gofynnir amdano'n rhesymol gan Estyn.

21.10 Lle mae Estyn yn rheoli cais am wybodaeth o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a'i bod yn angenrheidiol ac yn briodol i Estyn ymgynghori â'r Contractwr yn unol â'r *Cod Ymarfer ar Gyflawni Swyddogaethau Awdurdodau Cyhoeddus o Dan Rhan 1 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000* a wnaed o dan Adran 45 y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, bydd y Contractwr yn ymateb i Estyn yn ddi-oed a chyn pen 5 (pump) Diwrnod Gwaith. Bydd o fewn disgresiwn Estyn yn llwyr pa wybodaeth y bydd Estyn yn penderfynu ei datgelu mewn ymateb i unrhyw gais.

21.11 Os oes cais am wybodaeth yn cael ei wneud yn uniongyrchol i'r Contractwr, bydd y Contractwr yn cysylltu ag Estyn ar unwaith er mwyn i Estyn benderfynu beth ddylai'r ymateb priodol fod.

21.12 Bydd darpariaeth Amod 21 yn gymwys tra pery'r Contract hwn ac ar ôl ei derfynu sut bynnag y bydd hynny'n digwydd.

21.13 Ni fydd y Contractwr (neu unrhyw berson arall sy'n gysylltiedig â chyflawni'r Contract hwn) yn cyfeirio at PAEM, AEM, Estyn neu'r Contract mewn unrhyw hysbyseb heb gydsyniad ysgrifenedig Estyn ymlaen llaw.

21.14 Bydd y Contractwr (gan gynnwys unrhyw aelod o'r tîm arolygu) yn cydymffurfio â phob arweiniad a ddarperir gan Estyn mewn perthynas â chydymffurfio â data a diogelwch data, yn benodol (ond heb fod yn gyfyngedig i) "Bolisi sicrwydd gwybodaeth" Estyn (ar gael ar wefan Estyn).

## 22. INDEMNIAD AC YSWIRIANT

22.1 Bydd y Contractwr yn indemnio ac yn parhau i indemnio Estyn, y Goron, a/neu ei Gweinidogion, ei gweision neu asiantiaid yn erbyn pob gweithred, hawliad, achos, iawndal, gorchymyn, cost (gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i gostau cyfreithiol), treuliau ac unrhyw atebolrwydd arall pa beth bynnag sy'n deillio o neu mewn cysylltiad â'r Contract a'r Contractwr yn cyflawni neu heb fod yn cyflawni'r Contract ac mewn perthynas ag unrhyw farwolaeth neu anaf personol, neu golled neu ddifrod i eiddo a achosir yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol gan unrhyw weithred neu anwaith gan y Contractwr.

22.2 Bydd y Contractwr yn indemnio ac yn parhau i indemnio Estyn yn erbyn pob colled, hawliad, iawndal, atebolrwydd, cost a thraul (gan gynnwys heb gyfyngiad costau cyfreithiol rhesymol) a geir ganddo mewn perthynas ag unrhyw achos o dorri Amod 22 gan y Contractwr.

22.3 Drwy gydol cyfnod y Contract, bydd gan y Contractwr yswiriant atebolrwydd cyhoeddus mewn grym. Bydd y cyfryw yswiriant yn cael ei weithredu gydag yswiriwr cyfrifol am y fath swm yswiriant y mae'r Contractwr yn tybio sy'n briodol. Bydd y Contractwr pa bryd bynnag y bydd yn ofynnol yn cyflwyno i Estyn y polisi neu bolisïau yswiriant a'r derbynebau am dalu'r premiymau cyfredol.

22.4 Lle bydd yn berthnasol i'r Amod hwn bydd y Contractwr yn hysbysu Estyn ar unwaith os daw'n ymwybodol o unrhyw ffaith neu fater a allai wneud Estyn yn agored i'w erlyn.

## 23. DAMWAIN NEU ANAF I'R CONTRACTWR

23.1 Yn amodol ar gymal 23.3 ni fydd Estyn yn atebol am neu mewn perthynas ag unrhyw iawn neu iawndal sy'n daladwy mewn perthynas neu o ganlyniad i unrhyw ddamwain neu anaf i'r Contractwr a bydd y Contractwr yn indemnio ac yn parhau i indemnio Estyn yn erbyn yr holl gyfryw iawn ac iawndal (oddieithr ac eithrio'r dywededig) ac yn erbyn pob hawliad, gorchymyn, achos, cost, gan gynnwys costau cyfreithiol, taliadau a threuliau pa beth bynnag mewn cyswllt â hynny neu mewn perthynas â hynny.

23.2 Yn amodol ar gymal 23.3, ni fydd cyfanswm atebolrwydd cyfun Estyn mewn perthynas â hawliadau ym mha fodd bynnag y codant o dan neu mewn cysylltiad â'r Contract (boed yn sgil torri'r Contract, torri dyletswydd statudol, camwedd (gan gynnwys esgeulustod) neu fel arall) ("Hawliad") mewn unrhyw amgylchiadau yn fwy na'r rhan honno o Bris y Contract a delir gan Estyn i'r Contractwr yn unol â'r Contract ar y dyddiad y cododd y cyfryw Hawliad.

23.3 Bydd Estyn yn atebol am farwolaeth neu anaf personol o ganlyniad i esgeulustod Estyn, ei gyflogeion, ei weision neu asiantiaid (ond ac eithrio'r Contractwr) sy'n digwydd o ganlyniad i'r Contract hwn.

## 24. RHWYMEDIGAETHAU STATUDOL

24.1 Bydd y Contractwr yn cydymffurfio â phob Deddfwriaeth berthnasol sydd mewn grym o dro i dro wrth gyflawni'r Gwasanaethau a rhwymedigaethau eraill yn unol â'r Contract gan gynnwys heb gyfyngiad, y rheini'n ymwneud ag iechyd, diogelwch a hylendid a'r rheini dan ddeddfwriaeth mewn perthynas â chyflogaeth, cysylltiadau hiliol a gwahaniaethu rhywiol. Bydd y Contractwr yn indemnio Estyn a'r Goron yn erbyn pob gweithred, hawliad, colled, gorchymyn, cost a thraul y gall Estyn eu dioddef neu eu cael o ganlyniad neu mewn cysylltiad ag unrhyw achos o dorri'r Amodau hyn.

## 25 TYNNU ODDI AR Y RHESTR YMRESTREDIG

25.1 O dan Atodlen 26, Paragraff 9 Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998, gall Estyn dynnu oddi ar y rhestr a gedwir yn unol ag Adran 25 o Ddeddf 2005 unrhyw Arolygydd Meithrin Cofrestredig pan fydd Estyn yn fodlon fod y canlynol yn wir am y cyfryw Arolygydd Meithrin Cofrestredig:

(a) nid yw bellach yn unigolyn addas a phriodol i gyflawni swyddogaethau Arolygydd Meithrin Cofrestredig;
(b) nid yw bellach yn gallu cynnal Arolygiadau yn gymwys ac yn effeithiol;
(c) mae wedi methu'n sylweddol â chydymffurfio ag unrhyw amod a bennwyd arno/arni gan PAEM;
(ch) mae wedi, heb esboniad rhesymol, cynhyrchu Adroddiad sydd, yn gyfan gwbl neu'n rhannol, yn ddifrifol o gamarweiniol.

25.2 Bydd yr amgylchiadau a fydd yn rhoi'r hawl i Estyn benderfynu nad yw'r Arolygydd bellach yn unigolyn addas a phriodol i gyflawni swyddogaethau Arolygydd Meithrin Cofrestredig, yn cynnwys, heb gyfyngiad, unrhyw dor-amod gan y Contractwr o Amodau 6.5 a 25.3 isod.

25.3 Bydd y Contractwyr yn rhoi gwybod i Estyn yn ysgrifenedig ar unwaith os yw'r Contractwr wedi'i benodi i gynnal unrhyw arolygiad yn ystod cyfnod:

(a) pan fydd y darparwr sy'n cyflogi'r Contractwr wedi cael ei roi mewn Categori

(b) yn dilyn arolygiad diweddar; neu
(c) pan fydd y Contractwr yn destun ymchwiliad am unrhyw reswm; neu
(d) pan fydd y Contractwr wedi'i wahardd o'i swydd gan y sefydliad addysgol sy'n cyflogi'r Contractwr.

## 26. TERFYNU

26.1 Bydd y Contractwr yn hysbysu Estyn yn ysgrifenedig cyn gynted â phosibl yn ymarferol os cyflwynir deiseb ar gyfer methdaliad y Contractwr, neu os gwnaiff unrhyw gyfansoddiad neu drefniant gyda neu er lles credydwyr, neu os gwnaiff unrhyw drawsgludiad neu neilltuad er lles credydwyr, neu os penodir gweinyddwr i reoli ei fusnes.

26.2 Bydd hawl gan Estyn derfynu'r Contract (heb fod yn atebol i dalu unrhyw iawndal i'r Contractwr) gydag effaith ddi-oed:

(a) os yw'r Contractwr yn hysbysu Estyn o unrhyw ddigwyddiad a restrir yn 26.1 uchod; neu
(b) os bydd y Contractwr wedi torri'r Contract hwn ac (os oes modd gwneud iawn am y tor-amod) os bydd wedi methu gwneud iawn am y cyfryw dor-amod cyn pen 5 (pump) diwrnod y gofynnwyd iddo'n ysgrifenedig gan Estyn i wneud hynny; neu
(c) os yw'r Contractwr yn marw neu'n cael ei ddyfarnu'n analluog i reoli ei fusnes o fewn ystyr Rhan VII Deddf Iechyd Meddwl 1983; neu
(ch) os yw'r Contractwr yn dioddef unrhyw nam meddyliol neu gorfforol neu anabledd sydd ym marn resymol Estyn yn ei atal rhag gallu cyflawni'r Gwasanaethau;
(d) os yw'r Contractwr yn methu hysbysu'r Cydlynydd Arolygu cyn gynted â phosibl yn ymarferol yn unol ag Amod 15.3, lle mae achwynydd yn parhau'n anfodlon; neu
(dd) mae Estyn yn fodlon bod unrhyw un o'r amgylchiadau a amlinellir yn Amod 6.5 yn bodoli; neu
(e) os yw'r Contractwr yn cael ei gyflogi gan ddarparwr sydd wedi'i roi mewn Categori yn dilyn arolygiad diweddar; neu
(f) os yw'r Contractwr yn destun ymchwilliad am unrhyw reswm; neu
(ff) os yw'r Contractwr wedi'i wahardd o'i swydd gan y darparwr sy'n cyflogi'r Contractwr.

Os digwydd unrhyw un o'r digwyddiadau a restrir yn (a) i (ff) uchod, heb niweidio unrhyw un arall o'i hawliau, gall Estyn gwblhau'r Gwasanaethau neu beri bod trydydd parti yn eu cwblhau, gan ddefnyddio at y diben hwnnw (gan wneud lwfans teg a phriodol felly mewn unrhyw daliad a wneir wedi hynny i'r Contractwr) yr holl ddeunyddiau a chyfarpar yn y Sefydliad sy'n eiddo i'r Contractwr neu ei ystâd nes bod y Gwasanaethau wedi'u cwblhau yn unol â'r Gofynion, a bydd ganddo'r hawl i ddidynnu o unrhyw swm sy'n ddyledus i'r Contractwr y costau mewn perthynas â hynny a gafwyd gan Estyn (gan gynnwys costau Estyn ei hun). Os bydd cyfanswm y costau i Estyn yn fwy na'r swm (os oes) sy'n ddyledus i'r Contractwr, gall Estyn adennill y gwahaniaeth gan y Contractwr neu ei ystâd.

26.3 Bydd gan Estyn hawl i derfynu’r Contract (heb fod yn atebol am dalu unrhyw iawndal i’r Contractwr) ar unwaith os bydd digwyddiad coronafeirws yn digwydd, sy’n golygu nad yw’n ofynnol i’r Contractwr gyflawni’r Gwasanaethau o dan y cytundeb hwn, neu os na all eu cyflawni mwyach. Gallai digwyddiad coronafeirws gynnwys y canlynol, ond nid yw wedi’i gyfyngu iddynt:

(a) absenoldeb neu anargaeledd y Contractwr;
(b) unrhyw salwch, cwarantîn, gwarchod neu hunan-ynysu (gan gynnwys, ond heb fod wedi’i gyfyngu i, hunan-ynysu rhagofalus) ar ran y Contractwr neu unrhyw aelod staff allweddol y darparwr neu Estyn;

(c) unrhyw fesurau argymelledig neu orfodol a gyflwynir gan Lywodraeth y DU neu Lywodraeth Cymru a fwriedig i atal neu oedi lledaenu’r coronafeirws.

26.4 Yn ychwanegol at ei hawliau terfynu dan Amod 26.2 a 26.3, bydd hawl gan Estyn i derfynu’r Contract hwn yn ôl ei ewyllys trwy roi rhybudd ysgrifenedig nid llai nag 11 (un ar ddeg) Diwrnod Gwaith i’r Contractwr i’r perwyl hwnnw.

26.5 Lle bydd Estyn yn dewis terfynu contract arolygu yn agosach at Ddyddiad Dechrau’r Arolygiad (h.y. rhybudd llai na 10 diwrnod), gall y Contractwr fod yn gymwys i gael ffi ganslo dan yr amgylchiadau canlynol:

a) 5% (pump y cant) o Bris y Contract lle bydd terfyniad yn digwydd o leiaf 10 (deg) diwrnod cyn Dyddiad Cychwyn yr Arolygiad;
b) 10% (deg y cant) o Bris y Contract lle bydd terfyniadau felly’n digwydd llai na 10 (deg) diwrnod cyn Dyddiad Cychwyn yr Arolygiad; ond o leiaf 5 (bum) niwrnod cyn Dyddiad Cychwyn yr Arolygiad;
c) 15% (pymtheg y cant) o Bris y Contract lle bydd terfyniad felly’n digwydd llai na 5 (pum) niwrnod cyn Dyddiad Cychwyn yr Arolygiad; a
ch) 25% (dau ddeg pump y cant) o Bris y Contract os bydd terfyniad felly’n digwydd yn ystod yr Arolygiad.

**I osgoi amheuaeth, ni fydd hawl gan y Contractwr i unrhyw daliad arall ar gyfer cyflawni’r Gwasanaethau neu unrhyw ran ohonynt cyn terfyniad o’r fath ac ni fydd gan Estyn unrhyw rwymedigaeth arall i’r Contractwr sy’n codi sut bynnag o ganlyniad i derfyniad o’r fath neu mewn cysylltiad a’r terfyniad hwnnw (e.e. llety nad oes modd cael ad-daliad ar ei gyfer, a drefnwyd gan y Contractwr adeg dyfarnu’r contract).**

26.6 Ni fydd terfyniad o dan Amodau 26.2, 25.3 neu 26.5 yn niweidio nac yn effeithio ar unrhyw hawl gweithredu neu adfer a fydd wedi cronni neu a fydd ar hynny yn cronni i Estyn ac ni fydd yn effeithio ar weithredu parhaus Amod 21.

## 27. ADENNILL SYMIAU SY’N DDYLEDUS

27.1 Ble bynnag o dan y Contract hwn mae modd adennill unrhyw swm o arian gan y

Contractwr neu sy'n daladwy ganddo, gellir tynnu'r swm hwnnw o unrhyw swm sydd wedyn yn ddyledus, neu a all ddod yn ddyledus i'r Contractwr yn ddiweddarach o dan y Contract hwn neu o dan unrhyw gontract arall gydag Estyn, neu gydag unrhyw adran, asiantaeth neu awdurdod y Goron.

## 28. RHWYMEDÏAU

28.1 Ni fydd methiant neu oedi o ran arfer unrhyw hawl, pŵer neu fraint dan y Contract yn gweithredu fel hepgoriad ohono, ac ni fydd unrhyw achos unigol neu rannol o arfer yr hawl yn atal unrhyw arfer pellach o unrhyw bŵer neu fraint dan y Contract neu fel arall.

28.2 Mae'r Partïon yn cydnabod na fydd iawndal yn rhwymedi digonol o bosibl pe ddigwydd i'r Contract gael ei dorri, ac yn unol â hynny, bydd hawl gan bob un o'r Partïon, (yn ychwanegol at unrhyw rwymedi neu rwymedïau arall y gall fod ganddynt), i geisio rhwymedïau gwaharddiad, perfformiad penodol ac iawn ecwitïol arall am unrhyw fygythiad o dorri'r Contract neu dorri'r Contract yn wirioneddol gan y Parti arall, ac ni fydd angen unrhyw brawf o iawndal arbennig er mwyn gorfodi'r Contract.

## 29. HYSBYSIADAU

29.1 Bydd unrhyw hysbysiad neu ohebiaeth a roddir neu a wneir yn unol â'r Contract hwn yn ysgrifenedig a chaiff ei roi drwy anfon y cyfryw drwy bost dosbarth cyntaf wedi'i gofnodi, ffacs neu â llaw, os at Estyn, at:

Y Rheolwr Caffael
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd CF24 5JW

29.2 Bydd hysbysiadau a roddir drwy'r post yn effeithiol o'r cynharaf o'r ddau, sef derbyn yr hysbysiad 2 (dau) Ddiwrnod Gwaith ar ôl postio, oni bai bod Swyddfa'r Post yn ei anfon yn ôl heb ei ddosbarthu. Bydd hysbysiadau drwy'r e-bost at contractau@estyn.llyw.cymru a hysbysiadau â llaw yn effeithiol o adeg eu cyflwyno.

29.3 Gall y naill Barti neu'r llall i'r Contract newid ei gyfeiriad, rhif ffôn, rhif ffacs, cyfeiriad e-bost a chyswllt enwebedig at ddibenion hysbysu trwy roi hysbysiad ysgrifenedig rhesymol ymlaen llaw i'r Parti arall am y wybodaeth newydd a'r dyddiad y daw'n effeithiol.

## 30 POLISI DIM YSMYGU

30.1 Bydd y Contractwr yn sicrhau ei fod yn cydymffurfio ag unrhyw bolisi dim ysmygu sydd gan unrhyw Sefydliad ar waith.

## 31. TORADWYEDD

31.1 Os caiff bod unrhyw delerau, Amod, darpariaeth neu unrhyw ran o'r Contract hwn yn anghyfreithlon, yn annilys neu'n anorfodadwy i unrhyw raddau ni fydd y cyfryw delerau, Amod neu ddarpariaeth yn effeithio ar ddilysrwydd, cyfreithlondeb neu orfodadwyedd y rhannau sy'n weddill o'r Contract hwn a fydd yn parhau â grym ac effaith lawn.

## 32. GORFODAETH GAN DRYDYDD PARTI

32.1 Ni fydd Deddf Contractau (Hawliau Trydydd Parti) 1999 yn gymwys i'r Contract hwn ac ni fydd unrhyw un o'i delerau yn orfodadwy gan unrhyw drydydd parti.

## 33. CYDWEITHREDIAD A CHYMORTH

33.1 Heb amharu ar ddarpariaethau Amodau 15 a 21.8-21.12, bydd y Contractwr, heb unrhyw gost ychwanegol, yn darparu i Estyn yn ystod tymor y Contract ac ar ôl ei derfynu sut bynnag y mae'n codi i gydweithrediad a chymorth o'r fath fel a allai fod yn ofynnol gan Estyn mewn cysylltiad ag unrhyw faterion, gan gynnwys heb gyfyngiad, adolygiadau barnwrol neu achosion cyfreithiol eraill, sy'n deillio o, neu'n gysylltiedig â'r Arolygiad, yr Adroddiad, y Gwasanaethau a/neu'r Contract ("Materion Perthnasol"), a bydd yn darparu cydweithrediad a chymorth o'r fath o fewn y cyfryw amserlenni sy'n rhesymol ofynnol gan Estyn.

33.2 Bydd y cydweithrediad a'r cymorth i'w ddarparu gan y Contractwr yn unol ag Amod 334.1 yn cynnwys heb gyfyngiad y cyfryw gydweithrediad a chymorth, fel a allai fod yn ofynnol gan Estyn wrth baratoi neu gyflwyno unrhyw amddiffyniad ynglŷn ag unrhyw Fater Perthnasol.

## 34. CYFRAITH A RHEOLIADAU

34.1 Rheolir y Contract hwn gan gyfraith Cymru a Lloegr (fel y'i cymhwysir yng Nghymru).

34.2 Mewn perthynas â materion sy'n codi dan Amod 15 uchod (Cwynion), bydd y Partïon yn ymostwng i awdurdodaeth unigryw llysoedd Cymru a Lloegr.

34.3 Bydd y Contractwr ym mhob mater sy'n codi wrth gyflawni'r Contract yn cydymffurfio â phob Deddf Seneddol a phob gorchymyn, rheoliad ac is-ddeddf a wneir gydag awdurdod statudol gan Lywodraeth Cymru neu gan Awdurdodau lleol neu arall a fydd yn berthnasol i'r Contract.

Slip ateb:  i'w anfon yn ôl at contractau@estyn.llyw.cymru

Mae hyn i gadarnhau fy mod wedi derbyn **Fersiwn 1.4 (Medi 2024)** yr Amodau Contract ar gyfer darparu gwasanaethau Arolygu dan Adran 26 Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998.  Rwyf wedi darllen a deall y ddogfen, a chytunaf i dderbyn yr Amodau hyn mewn perthynas ag unrhyw Gontract(au) Arolygu a ddyfernir i mi.

Gofynnaf fod unrhyw hysbysiad neu ohebiaeth a roddir neu a wneir yn unol â'r Contract hwn yn cael ei wneud neu'i roi i'r islofnodedig, oni ddarperir hysbysiad am unrhyw newid i Estyn gan y Contractwr.

| | |
|---|---|
| Llofnodwyd: | ........................................................................................ |
| Dyddiad: | ........................................................................................ |
| Enw: | ........................................................................................ |
| Teitl Busnes: | ........................................................................................ |
| Ar gyfer ac ar ran (enw'r sefydliad):<br>Cyfeiriad | ........................................................................................ |
| | ........................................................................................ |
| | ........................................................................................ |
| | ........................................................................................ |
| | ........................................................................................ |
| Cyfeiriad e-bost: | ........................................................................................ |